

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod rithiol 9 Chwefror 2021 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.

PRESENNOL

Daniel Williams	Cynog Prys
Lliwen Griffith-Williams	Nerys John
Iwan Huws	Emyr Gareth
Casi Roberts	Dafydd Huws
Iestyn Harris	Eifion Williams
	Wynne Barton - Swyddog Ariannol

1.0 GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU

1.0	Agorwyd yn ffurfiol y cyfarfod misol gan y Cadeirydd Iwan Huws. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Eiliw Williams a Llŷr Evans.	
1.1	<p>Croesawodd Y Cadeirydd Iwan Huws Gwenno Talfryn a Linda Thomas, swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfarfod mis Chwefror y Cyngor. Fe gyflwynodd Gwenno Talfryn Llifogydd Cymunedol ar gyfer y Felinheli sleidiau ar cynhyrchu Cynllun Llifogydd Cymunedol Y Felinheli.</p> <p>Rhoddyd esiampl o gynllun fel sydd wedi cael ei gynhyrchu gan Cyngor Tref Biwmares, Llanfair TH a LLanelwy. Fe eglurwyd swyddogaethau a chyfrifoldebau ynghyd a proffil y Wardeniaid. Nodwyd mai y drefn byddai i gael un Uwch Warden ac yna i adnabod wardeniaid ar gyfer gwahanol parthau yn y pentref. Hysbyswyd swyddogion Cyfoeth Naturiol mai y Cynghorydd Cymuned Daniel Williams ydi prif gyswllt y Cyngor ar gyfer llifogydd.</p> <p>Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn barod iawn i helpu y Cyngor gyda gwaith gweinyddu a phrintio'r cynllun.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod adolygiad blynyddol a'r y Cynllun.</p> <p>Bydd angen trefnu ricriwtio wardeniaid – gall hyn gael ei wneud drwy facebook neu drwy lythyr. Roedd y Swyddogion yn pwysu ar y Cyngor bod angen caniatad y gwirfoddolwyr(wardeniaid) cyn gall y Cynllun ei rhyddhau iddynt.</p> <p>Bydd y Swyddog yn anfon copiâu o'r cyflwyniad a thempledi ar gyfer cynhyrchu'r cynllun.</p> <p>Dywedodd Linda Thomas bod yn pwysig i'r Cyngor benderfynu ar uwch Warden y Cynllun.</p> <p>Nodwyd awgrymiad y Cynghorydd Nerys John ei fod yn bwysig i gydnabod parthau eraill o fewn y pentref sydd yn cael eu heffeithio gan lifogydd oherwydd cyrsiau dwr eraill heblaw'r môr.</p>	<p>CLERC - e-bost wedi ei dderbyn gan CNC gyda'r dogfennau perthnasol sydd bellach wedi eu hanfon at yr aelodau.</p>

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	<p>Cafwyd wybodaeth fel eglurhad mai dim ond Afon Heulyn oedd cyfrfoldeb CNC o fewn y pentref a bod Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am y rhai eraill fel Cerrig yr Afon a perchnogion cwlferi preifat.</p> <p>Penderfynwyd trefnu cyfarfod rhithiol arbennig o'r Cyngor ar y 16eg o Chwefror 2021 am 7 i drafod gwirfoddolwyr a pharthau llifogydd. Bydd y Cyngorydd Dan Williams yn arwain ar y mater.</p> <p>Y Cyngorydd Nerys John i anfon manylion y parthau arfaethedig ar gyfer y Cynllun. Nodwyd bod angen diweddaru y gwybodaeth hyn yn ffurfiol yng nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned. Bydd angen ei gynnwys yn rhaglen flynyddol y Cyngor fel eitem barhaol ar yr agenda.</p>	
1.2	<p>Is-bwyllgor cyflogaeth wedi cyfarfod yn anffurfiol i ystyried bwriad Wynne Barton I ymddeol fel Swyddog Ariannol. Diolchodd y Cadeirydd iddo. Dywedodd bydd trafodaeth ar hyn i'r Cyngor o'r aelodau yn unig i drafod yr oblygiadau ariannol. Cyn y cyfarfod bydd y Cadeirydd yn trefnu dyddiad ar gyfer gwerthuso y ddau swyddog.</p>	CLERC – Dyddiad ag amser wedi ei drefnu
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Adroddiad gwariant am fis Ionawr. Fei derbyniwyd fel rhai cywir.	
4.2	Trafodwyd ceisiadau am gymorth ariannol. Gweler yr atodiad.	
4.3	Derbyniwyd pris am y gwaith o ffensio dwy ran o lwybr Cerrig yr Afon. Roedd y pris yn £895.00 & TAW. Yn unol â rheolau sefydlog y Cyngor mae'r pris o dan yr uchafswm y caniateir cyn bod angen ystyried proses tendr. Derbyniwyd y pris gan y Cyngor.	CLERC y contractwr i ddechrau ar y gwaith y penwythnos hwn.
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Ionawr fel rhai cywir.	CLERC
5.2	<p>Yn codi o'r cofnodion: Y Faner – yn cael ei godi yfory (10/02/2021).</p> <p>Prosiect Cae Chwarae Lan y Môr - yn dilyn cyfarfod safle fe gyflwynodd y Cyngorydd Eiliw Williams yr adroddiad ysgrifenedig canlynol i'r Cyngor:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae angen i'r tir sychu'n iawn, felly anelir at osod yr offer ddiwedd Mawrth *plŷs gawn ni osgoi gwyliau'r Pasg?! OBR i roi gwybod i Eiliw pan fydd dyddiad pendant mewn golwg (yn ddibynnol ar y tywydd wrth gwrs) OBR/Eiliw i rannu'r dyddiad efo Llifton fel y gellir gwneud yn siŵr nad oes bwriad torri'r glaswellt yn ystod y cyfnod 	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd angen cau'r cae chwarae tra bydd peiriannau trwm ar y safle, a bydd yr ardal lle mae'r offer newydd yn mynd yn cael ei ffensio i atal mynediad yn ystod y gwaith • Y Cyngor Cymuned i roi hysbysiad ar giat y cae chwarae ynglyn a'r amseroedd pan na fydd mynediad • Y Cyngor Cymuned i roi gwybodaeth ar Facebook am y gwaith unwaith y bydd dyddiad wedi'i drefnu • Dim angen archwiliad gan y Cyngor ar ôl cwblhau'r gwaith <p>Paentio'r Toiledau - dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod wedi mesur arwynebedd yr adeilad a bydd angen gwerth £300 o baent am ddwy gôt. Bydd yn gofyn i gontractwr am bris paentio. Penderfynwyd paentio'r adeilad yn wyn am y tro.</p> <p>Garddwr - y Cynghorydd Casi Roberts wedi cysylltu â garddwr arall, bydd ymweliad safle gan y garddwr yn unig yn digwydd y fory. Bydd adroddiad yng nghyfarfod mis Mawrth.</p> <p>Baw Ci - dywedodd y Clerc ei bod wedi anfon newydd ar y mater ymlaen at yr aelodau yn yr wythnosau o flaen y cyfarfod. Roedd Swyddog o Gyngor Gwynedd wedi sicrhau bod y llwybr linc rhwng Y Wern a Rhes Seaview wedi derbyn sylw cyn gynted a chyflwynodd y Clerc sylw ar y mater.</p> <p>Angen anfon am ddiweddariad ar y "taskforce" y Clerc hefyd i ofyn am dispensers ar gyfer bagiau ci. Cofnodwyd bod bin baw ci wedi syrthio oddi ar y post ger y Feddygfa - Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd.</p> <p>Arolygiaeth Cynllunio - diolchwyd am ddyfarniad ar yr apêl ddiweddar. Gofynnwyd a oedd fwy o apeliai yn bodoli ar gyfer y pentref - wrth edrych ar wefan yr arolygiaeth gan y Cynghorydd Emyr Gareth ddeallwyd nad oedd dim.</p> <p>Llwybrau - diolchwyd am y gwaith o osod canllaw newydd ar lwybr 16 a'r giât ar lwybr Cerrig yr Afon. Mae dau lwybr wedi ei gau o dan orchymyn sef Afon Heulyn a llwybr 23b.</p>	<p>DW</p> <p>CR</p> <p>CLERC – ebost wedi ei anfon</p>
6.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
6.1	Dim wedi eu derbyn.	
7.0	PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU	
7.1	Bydd y fainc yn derbyn gwaith y mis nesaf	DW
7.2	Cafwyd gais gan Gyngor Gwynedd am sylwadau gan drigolion Y Felinheli am statws diogelwch y ffordd feics ar Gylchfan Y Faenol. Derbyniwyd sawl ymateb i'r cais gan y cyhoedd ar dudalen facebook y Felinheli. Y Clerc i anfon y sylwadau ymlaen i Gyngor Gwynedd.	
8.0	LLWYBRAU A LON LAS	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

8.1	<p>Dyddiadau ar gyfer dewis cyfarfod wedi ei dderbyn. Penderfynwyd bod yr ail a thrydydd o Fawrth yn addas ar gyfer pawb o'r is-bwyllgor Y Clerc i anfon y wybodaeth yma at y Swyddog priodol.</p> <p>Y Clerc wedi gyrru at Gyngor Gwynedd ynghylch cyflwr y llwybyr sydd yn rhedeg ar lan y Fenai rhwng y Garddfon a'r parc cychod.</p> <p>Llwybyr Afon heulyn wedi bod ar gau ond gwybodaeth i'r cyhoedd bod y llwybyr ar gau hyd y dyddiad 22/2/21</p> <p>Nododd Nerys John bod Llwybyr rhif 26b rhwng Cefn a Tan yr Wylfa wedi ei gau gan Gyngor Gwynedd oherwydd bod bont-bren wedi dymchwel ar y llwybyr.</p>	CLERC - e-bost wedi anfon gyda'r arolwg 2020
9.0	MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA	
9.1	Bydd Sul y Blodau yn syrthio o fewn mis Mawrth eleni ac felly bydd angen toriad ar y gwair tu allan i amserlen y contract. Y Cyngor yn caniatáu hyn. Y Clerc I anfon at y Contractwr.	CLERC – nodyn wedi ei anfon
10.0	PROSIECTAU	
10.1	<p>Mae prosiect Lan y Môr wedi ei gwblhau. Bydd agoriad rhithiol y mis nesaf i gyflwyno'r llechen gyda'r gerdd a gwaith celf plant yr ysgol. Bydd manylion sut gellir gweld yr agoriad ar wefannau cymdeithasol yn fuan. Roedd y Cynghorydd Nerys John wedi derbyn adroddiad bod rhai o'r llechi yn ymwthio allan o uchder llygaid plant byddai gwrthdrawiad yn gallu achosi niwed. Y mater hwn wedi mynd i sylw y swyddog perthnasol am weithred.</p> <p>Cafwyd wybod bod canllaw newydd ei osod ger y Garddfon yn rhydd, maer mater hwn bellach wedi ei ddatrys.</p>	EG,
10.2	<p>Fe awgrymodd y Cynghorydd Nerys John bod angen sicrhau planhigion ar gyfer yr ardal blodau gwyllt. Mae planter teiars yn cael eu cynnal gan gontract Menter Fachwen, gofynnodd oes modd sicrhau arian ar gyfer prynu planhigion i'r ardal gwyllt. Cynigwyd byddai £300 yn galluogi planhigion aeddfed cael eu prynu. Roedd y Cyngor yn gytûn i hyn gael ei wneud. Roedd y Swyddog Ariannol yn gallu sicrhau bod cyllid ar gael.</p>	Swyddog Ariannol
11.0	NEUADD GOFFA A CHLOC	
11.1	<p>Y Neuadd yn parhau i fod ar gau.</p> <p>Dywedodd y Cynghorydd Dan Williams ei fod wedi sicrhau bod gwres yn cael ei droi ymlaen heno yn y neuadd oherwydd bod y tymheredd am ostwng. Byddai hyn yn sicrhau na fyddai peipiau dwr y Neuadd yn rhewi ac yn achosi difrod.</p> <p>Dywedodd hefyd ei fod wedi derbyn pris am goed I wneud gwaith ffensio I nadu dwr ddod o dan y drws tan. Tua £30 - £40 oedd y gost.</p> <p>Cofnodwyd hefyd bod cloeon yr hysbysfyrdau angen sylw oherwydd bod halen yn yr awyrgylch.</p> <p>Bydd gwaith ar y CCTV yn parhau'r mis nesaf.</p>	DW
12.0	GWEFAN	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Gwaith yn parhau i ddiweddarau'r wefan.	CLERC
13.0	Materion eraill - Mae cais wedi ei dderbyn ynglŷn ag ardal trwyddedu'r byrddau ger y Garddfon. Y gwaith hwn yn parhau, Cyngor Gwynedd wedi derbyn cadarnhau y lleoliad sydd o dan sylw. Ymateb wedi ei dderbyn bod dim copi o gytundeb ar dir yr hen reilffordd. Y Clerc i barhau a phwyso ar Adran Dai ag eiddo Cyngor Gwynedd.	CLERC - E-bost wedi ei anfon
14.0	Cae Ysgol - dim fwy o wybodaeth i law. Bydd y mater yn cael ei godi gan y Cyngorydd Iestyn Harris yng nghyfarfod nesaf y llywodraethwyr.	CLERC
15.0	Jananese Knotweed - dim gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn - Y Clerc I ofyn am diweddariad.	CLERC - e-bost wedi ei anfon
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:40	
Llofnod:		Dyddiad:

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

ATODIAD

CYNGOR CYMUNED
Y FELINHELI
COMMUNITY COUNCIL

CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL
APPLICATIONS FOR FINANCIAL ASSISTANCE

2021

CYMDEITHAS/ORGANISATION	MANTOLEN / STATEMENT	2019/2020	2020/2021	
Y Goriad £ 200	do	200	200	
Clwb Peldroed	do	2000	2000	
Cyfeillion Ysgol Y Felinheli £1250	do	1200	1250	
Pwyllgor Regata		300	300	Angen mantolen banc cyn rhyddhau'r arian
Clwb y Felin (Henoed)		100		DIM CAIS
Clwb Peldroed Ieuencid £1000	do	500	1000	
Gŵyl y Felin		1000	1000	Amod
PARCH £1000	do	500	500	
Felinheli Guides £100		100		DIM CAIS
Brownies Y Felinheli £100	do	100	100	
Cic Bethania	do	200		DIM CAIS
Dawnsyr Felinheli £2000	do			Gwrthodwyd oherwydd nid oedd yr ymgeisydd yn berson unigol yn hytrach na chymdeithas neu sefydliad.

Commented [fg1]: fod yr ymgeisydd yn gwneud cais fel person(busnes) unigol a nid ar ran cymdeithas na sefydliad cymunedol.